



Grŵp Tasg a Gorffen yr Economi Sylfaenol (Gwasanaethau Dynol)

Sectorau: Gofal Cymdeithasol; Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
Paratowyd gan: Cyngor Gofal Cymru

Cyd-destun/Cefndir:

Gofal cymdeithasol

Mae gofal cymdeithasol yn diogelu ac yn amddiffyn plant ac oedolion o bob oed a all fod yn wynebu risg o niwed oherwydd eu natur agored i niwed. Mae'n helpu pobl i fyw eu bywydau'n gyfforddus, yn enwedig y bobl hynny y mae arnynt angen rhywfaint o gymorth ymarferol a chorfforol ychwanegol.

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn ymdrechu i ddarparu'r gwasanaeth hwn o gymorth ymarferol gyda golwg ar rymuso unigolion i gynnal eu hannibyniaeth, i gynyddu eu hansawdd bywyd a'u helpu i fyw bywydau mwy cyflawn, sy'n rhoi mwy o fwynhad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ystod o ddiwygiadau deddfwriaethol sy'n amcanu at drawsnewid y gwasanaethau y mae pobl yn eu cael ac felly'r sgiliau y mae angen i'r gweithlu feddu arnynt. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi mwy o bwyslais ar yr angen i weithwyr proffesiynol wrando er mwyn deall yn well "Yr Hyn sydd o Bwys" i bobl y gall fod arnynt angen gofal neu gymorth neu gael eu hamddiffyn rhag niwed posibl. Bydd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol yn golygu y bydd mwy o weithwyr yn cael eu rheoleiddio a'u proffesiynoli, gan wella ansawdd y gymorth a roddir ymhellach.

Mae gofal cymdeithasol yn gwneud cyfraniad sylweddol i wariant rhanbarthol. Yn 2015-15 roedd gwariant gan awdurdodau lleol yn ne ddwyrain Cymru ar ofal cymdeithasol yn £809m.

Y blynyddoedd cynnar a gofal plant

Diffinnir y blynyddoedd cynnar fel y cyfnod o'r amser cyn i blentyn gael ei eni nes ei fod yn 7 mlwydd oed. Ceir cytundeb cyffredinol bod profiadau yn ystod plentyndod cynnar yn allweddol bwysig i ddatblygiad hirdymor plant a'u cyflawniadau yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Mae gweithwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn darparu gofal a datblygiad. Maent yn cynllunio ac yn goruchwylio gweithgareddau ac yn monitro datblygiad plant yn eu gofal. 'Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant' yw dogfen strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector.

Demograffeg:

Gofal cymdeithasol

Mae'r sector yn gyflogwr pwysig yn Ne Ddwyrain Cymru gyda thua 36,000 o

weithwyr.

Mae'r gweithwyr hyn wedi'u lleoli mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol, fel a nodir yn y tabl isod:

Lleoliad gofal cymdeithasol yn ne ddwyrain Cymru	Amcangyfrif o nifer y staff ar y cyfan
Rheoli a Chymorth Canolog	1,000
Gwaith Cymdeithasol	3,000
Gofal Cartref	12,000
Gofal Preswyl	12,000
Gwasanaethau Dydd a Chymunedol	6,000
Cymysg	2,000
Cyfanswm	36,000

Mae data ynghylch gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gyfyngedig i lefel Cymru gyfan. Mae tua 23,000 o bobl yn gweithio gyda'r plant lleiaf yng Nghymru, gan gynnwys lleoliadau gwaith chwarae a'r cyfnod sylfaen. O'r rhain, mae tua 18,000 yn gweithio yn y blynyddoedd cynnar gyda'r gweddill yn gweithio mewn lleoliadau gwaith chwarae arbenigol.

Bylchau o ran Sgiliau/Prinder Sgiliau:

Bylchau o ran sgiliau

Sgiliau rheoli:

Mae disgwyl i reolwyr ac arweinwyr yn y sector roi cymorth i gyflawni agenda'r Llywodraeth ar gyfer newid, cynyddu proffesiynoldeb eu staff a gwella ansawdd ac amrywiaeth gwasanaethau. Mae hyn yn galw am reolwyr sydd nid yn unig wedi'u hyfforddi ac wedi cymhwyso mewn gofal cymdeithasol ond sydd hefyd yn meddu ar sgiliau arwain a rheoli busnes.

Sgiliau gweithwyr gofal cyffredinol

Mae gan 53% o'r bobl a gyflogir mewn gwasanaethau a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol y cymwysterau gofynnol neu argymelledig ar gyfer eu swydd, sy'n gadael 47% nad ydynt wedi cymhwyso eto. Ar y cyfan mae'n ofynnol ar hyn o bryd i'r gweithwyr hyn feddu ar gymhwyster iechyd a gofal cymdeithasol lefel 2 (Diploma'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau). O 2018 bydd yn ofynnol i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol gael trwydded i ymarfer.

Sgiliau iaith Gymraeg

Y ganran o'r staff gofal cymdeithasol yn Ne Ddwyrain Cymru a nodwyd fel rhai sy'n siarad Cymraeg: 4% Mae'r ganran o'r boblogaeth yn ne ddwyrain Cymru sy'n siarad Cymraeg yn 10%.

Sgiliau'r blynyddoedd cynnar

Mae'r mwyafrif o weithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant bellach wedi cyrraedd lefel 3, sef y lefel isaf a ddymunir ar gyfer y sector. Fodd bynnag, adroddwyd fod 12% o staff yn meddu ar gymwysterau ar lefel 2 a bod 10% heb gymwysterau.

Sgiliau i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth

Mae galwadau cynyddol ar y sector i ofalu am bobl ag anghenion hirdymor mwyfwy cymhleth. Mae hyn yn wir am bobl mewn lleoliadau preswyl a'r rhai sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Mae gofal dementia yn enghraifft arbennig o hyn.

Prinder sgiliau

Staff nyrsio mewn cartrefi gofal

Mae prinder staff nyrsio mewn cartrefi gofal. Meddai'r Comisiynydd Pobl Hŷn mewn adroddiad diweddar: "nid yw cynllunio gweithlu yn effeithiol oherwydd ei fod yn seiliedig ar anghenion Byrddau Iechyd yn unig ac nid yw'n ystyried anghenion gofal preswyl. Gall hyn achosi problemau neilltuol ynghylch recriwtio nyrsys cymwys i weithio mewn lleoliadau HEM (Henoed Eiddil eu Meddwl)."

Ydych chi'n diwallu'r anghenion hyfforddi presennol?

Mae'r Cyngor Gofal wedi bod yn cydweithio'n agos gyda'r sector i ddatblygu nifer o ddatrysiadau i gefnogi hyfforddiant a datblygiad y gweithlu ers 2001.

Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Darperir Grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar gyfer awdurdodau lleol i gynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ymhellach. Ar gyfer 2015/16, darparodd Llywodraeth Cymru grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol o £8.4m¹.

Gwaith cymdeithasol

Mae 140 o leoedd gwaith cymdeithasol cymhwysol ar gael yn ne ddwyrain Cymru gyda lleoedd pellach ar gael trwy'r Brifysgol Agored. Mae 36% ar lefel Meistr, a'r gweddill ar lefel israddedig. Unwaith y maent wedi cymhwyso, mae disgwyl i weithwyr cymdeithasol ddatblygu eu hymarfer trwy Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus Cyngor Gofal Cymru. Mae'r awdurdodau lleol yn ne ddwyrain Cymru mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru ar gyfer y fframwaith hwn.

Gweithwyr gofal cymdeithasol - cymwysterau sy'n ofynnol i ymarfer

Mae'r Cyngor Gofal wedi datblygu ystod o adnoddau sy'n cefnogi anghenion hyfforddi'r gweithlu. Mae'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol yn rhoi dechrau strwythuredig i weithwyr yn ystod 12 wythnos gyntaf eu cyflogaeth.

¹ Tudalen we'r [Gweithlu gwasanaethau cymdeithasol](#), Llywodraeth Cymru

Rheolwyr

Mae'r Cyngor Gofal wedi datblygu ystod o gymwysterau, cyfarwyddyd ymarfer ac adnoddau i gefnogi gweithgarwch dysgu parhaus rheolwyr. Mae'n treialu rhaglen Camu i Fyny i Reoli yn ne ddwyrain Cymru. Mae hon yn ymateb i'r bwlch o ran sgiliau mewn perthynas â sgiliau rheoli y cyfeiriwyd ato uchod. Ei nod yw rhoi i weithwyr gofal cymdeithasol yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth i symud ymlaen i rôl reoli.

Prentisiaid

Prentisiaethau yn y sector gofal sy'n darparu'r nifer fwyaf o leoliadau mewn unrhyw sector yng Nghymru. Mae mwy o fenywod na dynion ar fframweithiau prentisiaeth gofal. Mae'n drawiadol bod cyfran uchel o brentisiaid gofal dros 25.

Y blynyddoedd cynnar a gofal plant

Mae'r Cyngor Gofal wedi datblygu Egwyddorion Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant ac adnoddau ar recriwtio diogel a goruchwylio. Mae Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn rhoi dechrau strwythuredig i weithwyr yn 12 wythnos gyntaf eu cyflogaeth. Bydd gweithwyr y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng nghymoedd de Cymru yn cael cymorth pellach i ennill sgiliau newydd a chymwysterau cydnabyddedig gan raglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant £6.3m Llywodraeth Cymru.

Cynllunio'r Gweithlu:

e.e. gweithwyr newydd, swyddi dan fygythiad, rolau yn y dyfodol

Gweithwyr newydd

Yn y dyfodol bydd angen gweithwyr newydd yn lle niferoedd sylweddol a fydd yn gadael y sector, yn bennaf oherwydd ymddeoliad, gan fod demograffeg hŷn yn ôl dadansoddiad y Cyngor Gofal o'r gweithlu cofrestredig. Mae trosiant staff yn uchel mewn rhai rhannau o'r sector. Yn ôl y Fforwm Gofal Cenedlaethol mae'r gyfradd trosiant ar gyfer staff gofal cartref sy'n gweithio gyda phobl hŷn yn 28 y cant.

Rolau yn y dyfodol: technoleg newydd

Yn y dyfodol disgwylir y bydd mwy o unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu cefnogi gan weithlu gofal cymdeithasol hyderus, gwybodus a medrus, a hwythau'n gweithio'n greadigol gyda Thechnoleg Gynorthwyol Electronig i gefnogi eu llesiant, eu dewis a'u hannibyniaeth. Bydd hyn yn cynyddu annibyniaeth ac yn grymuso mwy o bobl i ddod o hyd i ddatrysiadau creadigol i ddiwallu eu hanghenion o ran llesiant. Fodd bynnag, bydd hefyd yn arwain at fylchau o ran gwybodaeth a phrinder sgiliau, wrth i sefydliadau geisio newid i wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg, gan eu bod yn annhebygol o fod â staff sy'n gallu ateb y gofynion hyn yn y dyfodol.

Rolau yn y dyfodol: integreiddio a chymhlethdod

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod integreiddio gofal cymdeithasol ac iechyd yn flaenoriaeth. Bydd hyn yn galw am weithlu gofal sydd â'r sgiliau i gyflawni amrywiaeth o dasgau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac i allu gwneud hynny ar eu pen eu hunain yng nghartrefi pobl.

Swyddi gwag

Ar ddiwedd 2014 adroddwyd fod tua 3,000 o swyddi gwag ar draws gwasanaethau wedi'u comisiynu yng Nghymru, yr oedd 41% ohonynt yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru.

Meysydd/Materion Allweddol ar gyfer y Sector (mewn perthynas ag addysg a sgiliau):

Mae'r cymwysterau a'r cyrsiau a gynigir i bobl sy'n dymuno datblygu eu gyrfa ym maes gofal wedi cael eu hadolygu gan Cymwysterau Cymru. Mae'r canfyddiadau wedi cael eu croesawu gan y Cyngor Gofal a'r sector ehangach fel rhai sy'n amlygu heriau allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy, sef:

- effeithiolrwydd y modelau asesu presennol o ran canfod gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr;
- cyfredolrwydd rhai cymwysterau, yn enwedig y cymwysterau hynny a ddilynir gan ddysgwyr 14-16 oed;
- i ba raddau yr oedd cymwysterau'n paratoi dysgwyr i gamu ymlaen i addysg uwch;
- y sylw i rai agweddau allweddol penodol ar ddysgu ar gyfer gwahanol feysydd gwaith, er enghraifft mewn perthynas â gofal dementia, gofal cartref a gwaith chwarae yng nghyd-destun gofal plant; ac
- i ba raddau yr oedd cymwysterau'n paratoi dysgwyr yn effeithiol i weithio mewn cenedl ddwyieithog

Sylwadau ychwanegol:

e.e. meysydd ar gyfer ymchwil bellach a Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

Ym mis Ebrill 2017 bydd y Cyngor Gofal yn newid i Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd gennym rôl ychwanegol o ran ymchwil a gwybodaeth am y farchnad lafur. Rydym yn bwriadu cydweithio'n agos gyda phartneriaid i gynyddu argaeledd ac eglurder gwybodaeth am y gweithlu gofal cymdeithasol.

Cyn y newid hwn rydym yn bwriadu cytuno ar set ddata safonol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a materion cysylltiedig pwysig eraill. Byddwn yn ceisio barn partneriaid ynglŷn â'r wybodaeth bwysicaf a mwyaf defnyddiol y gellir ei darparu. Byddem yn croesawu barn Partneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi De Ddwyrain Cymru yn arbennig.

Mae'r Cyngor Gofal yn cynnal trafodaethau gyda'r Ganolfan Gwybodaeth am y Gweithlu ynglŷn â datblygu model sganio'r gorwel ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol.